CYNGOR CYMUNED TREF ALAW

Porfa Las, Llanddeusant, LL65 4AD
01407 730172

Cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, 14 Hydref 2014 yn Neuadd Bentref, Llanddeusant.

Yn bresennol Cadeirydd Owain Owen, Peredur Hughes, Arthur Jones, Geraint Owen, Iona Phillips, Ffion Roberts, John T Rowlands, Hugh Williams, Cynghorydd Ken Hughes – Talybolion

Ymddiheuriadau John Griffith, Glyn Hughes, Trefor Jones, Ifan P Rowlands

Datganiadau diddordeb Cynghorydd Ken Hughes (eitem 4)

1 **Cofnodion cyfarfod Mehefin 2014**

Darllenwyd a chadarnhawyd y cofnodion cyfarfod Mehefin 2014 gyda Mr Geraint Owen yn cynnig a Mr Arthur Jones yn eilio.

2 CSYM:

2.1 **Côd Ymddygiad** : Hyfforddiant i'r clercod – Llangefni, 30 Hydref @10am

Bu'r Clerc yn mynd i'r sesiwn hyfforddiant yma ond wedi pwysleisio wrth CSYM nad ydy'n cymwysedig i ddysgu'r Côd Ymddygiad i'r cynghorwyr Thref Alaw.

2.2 **Fforwm Cyswllt** : Llangefni, 23 Hydref @ 7pm

Bu'r Clerc yn mynd i'r cyfarfod yma.

2.3 **Fforwm Cynllunio**: Llangefni, 13 Tachwedd @ 6pm

Bu'r Cadeirydd yn mynd i'r Fforwm yma os ydy ar gael.

2.4 **Gorchymun traffic dros dro**

Nodwyd bu lonydd yn Tref Alaw ar gau tra bu gwaith ail wynebu yn cymeryd lle, mi fydd ffordd amgen yn lle:

i) Cae Crin – Llanddeusant : 27.10.14 – 7.11.14

ii) Nantanog – Llantrisant : 3.11.14 – 14.11.14

3 Wylfa Newydd : http://consultation.horizonnuclearpower.com

Roedd y Clerc wedi bod yn cyfarfod ddiweddaraf o'r Grŵp Cyswllt Prosiect Adeiladu Wylfa Newydd. Mae Horizon wedi lansio cam cyntaf yr ymgynghoriad cymunedol ar y cynlluniau ar gyfer yr atomfa newydd a'i seilwaith cysylltiedig. Pwysleisiodd y Clerc y bu'n cyfle da i'r aelodau mynd i un o'r arddangosfeydd cyhoeddus. Mi fydd dau cyfle yn Tachwedd: 2pm – 8pm dydd Iau, 20 Tachwedd yn Clwb Cymdeithasol Wylfa ac hefyd dydd Gwener, 21 Tachwedd yn Canolfan Agewell Amlwch, Memorial Hall, Amlwch.

4 Ysgol Uwchradd Bodedern : Llion Francis, Adran Ffiseg (atodedig)

Roedd Mr Francis wedi rhoi cais am arian tuag at adnoddau i'r Adran Ffiseg. Adroddwyd y Clerc na fysa'n bosib i hystyried y cais yma am ei fod yn 'double taxation'.

5 **Materion a codwyd**

5.1 **HMRC**: Roedd cosb o £400 wedi cyradd y diwrnod yna oddi wrth HMRC ynglŷn â dim rhoi manylion 2012-13 i mewn yn amser. **Penderfynwyd** bu'r Clerc yn dilyn cyngor oddi wrth John Roberts, yr Internal Auditor.

5.2 **Syr Thomas Jones**: Yn dilyn sgwrs gyda gangen Merched y Wawr Llanddeusant roedd yr awdur J Richard Williams wedi ysgrifennu ynglŷn â Syr Thomas Jones oedd yn hannu o Mynydd Adda, Llanddeusant, yn aelod o deulu Meddygon Esgyrn Môn ac yn fawr ei barch fel meddyd teulu yn Amlwch ac fel gŵr cyhoeddus

a chynghorydd sirol. Y sylwedd yw nad oes cofed i Syr Thomas yn ei bentref genedigol nac yn Amlwch. Mae Mr Williams a'r gangen Llanddeusant Merched y Wawr yn cyflwyno'r syniad o cael gofeb deilwng iddo.

Penderfynwyd cefnogi'r syniad mewn egwyddor ac i'r Clerc holi Mr Williams yn bellach.

5.3 **Pobl sy'n Cysgu Allan** – Cyfrif 2014 oddi wrth CSYM: Toedd neb yn gwbod am unrhyw un yn cysgu allan yn Thref Alaw.

5.3 **Seminar: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, 7 Tachwedd**: Gofyn os oedd Ifan Rowlands yn gallu mynd, hefyd os ydy ar gael mi fydd y Clerc yn mynd.

Taliadau: **I mewn:**

Allan:

Post ers cyfarfod blaenorol

Grŵp Cynefin: grant datblygu Cymunedol Grŵp Cynefin